OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 167 (Cy.27)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2003

Wedi'i wneud	-	-	*30 Ionawr 2003*
Yn dod i rym	-	-	*31 Ionawr 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, a hwythau'n gweithredu ar y cyd drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1 ac 8(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enw, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2003; mae'n gymwys i Gymru a daw i rym ar 31 Ionawr 2003.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y prif Orchymyn" yw Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002(**2**).

Diwygio erthygl 1

3. Yn erthygl 1(2) o'r prif Orchymyn rhoddir y geiriau "1 Ebrill 2003" yn lle "1 Chwefror 2003".

(**1**) 1981 p.22. Trosglwyddwyd swyddogaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1981 i "the Ministers" (yn ôl y diffiniad yn adran 86 o'r Ddeddf honno) i'r graddau eu bod yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn cysylltiad â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau ar y cyd "the Ministers" a oedd yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban mewn cysylltiad â Chymru i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141). Trosglwyddwyd pob swyddogaeth y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ymhellach wedyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

(**2**) O.S. 2002/2302 (Cy.227).

Diwygio erthygl 2

4. Yn erthygl 2 o'r prif Orchymyn, mewnosodir y canlynol yn y mannau priodol yn nhrefn y wyddor—

"ystyr "Marc" ("*Mark*") yw un o'r canlynol: Marc F, Marc R, Marc S, Marc Tarddiad, neu Farc X;

ystyr "Marc F" ("*F Mark*") yw Marc F yn unol ag erthygl 6(1) a (4);

ystyr "Marc R" ("*R Mark*") yw Marc R yn unol ag erthygl 6(1) a (6);

ystyr "Marc S" ("*S Mark*") yw Marc S yn unol ag erthygl 6(1) a (7);

ystyr "Marc Tarddiad" ("*Origin Mark*") yw Marc Tarddiad yn unol ag erthygl 6(1) a (5);

mae i "Rhif adnabod unigol" ("*individual identification number*") yr ystyr a roddir yn erthygl 6(9) a (10);".

Mewnosod erthygl 2A

5. Ar ôl erthygl 2, mewnosodir yr erthygl canlynol—

"**Dodi neu gofnodi Rhif au adnabod unigol**

2A. Yn y Gorchymyn hwn nid yw cyfeiriad at ofyniad i ddodi neu gofnodi Rhif adnabod unigol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rhif adnabod unigol gael ei ddodi na'i gofnodi os yw'r Rhif hwnnw wedi ei ddodi neu ei gofnodi eisoes fel rhan o Farc.".

Diwygio erthygl 4

6.—(1) Caiff erthygl 4 o'r prif Orchymyn ei diwygio yn unol â'r erthygl hon.

(2) Yn lle paragraff (2), is-baragraff (c)(iv) rhoddir y canlynol—

"(iv) os bydd dafad yn dwyn uchafswm y marciau a ganiateir o dan erthygl 10, y Rhif adnabod unigol ynghyd â'r Marc a ddodwyd ar yr un pryd â'r Rhif adnabod unigol;".

(3) Ar ôl paragraff (2), mewnosodir y canlynol—

"(2A) Nid yw'r gofyniad i gofnodi Marc Tarddiad, Marc F neu Farc R o dan is-baragraffau (2)(c)(ii) a (iii) uchod yn ei gwneud yn ofynnol i'r ceidwad gofnodi Rhif adnabod unigol y ddafad a symudwyd.".

Diwygio erthygl 5

7.—(1) Caiff erthygl 5 o'r prif Orchymyn ei diwygio yn unol â'r erthygl hon.

(2) Yn lle paragraff (2), is-baragraff (c)(iv) rhoddir y canlynol—

"(iv) os bydd gafr yn dwyn uchafswm y marciau a ganiateir o dan erthygl 10, y Rhif adnabod unigol ynghyd â'r Marc a ddodwyd ar yr un pryd â'r Rhif adnabod unigol;".

(3) Ym mharagraff (2), is-baragraff (f) o'r testun Saesneg yn unig, rhoddir y geiriau "to or from a show" yn lle "to a show".

(4) Ar ôl paragraff (2), mewnosodir y canlynol—

"(2A) Nid yw'r gofyniad i gofnodi Marc Tarddiad, Marc F neu Farc R o dan is-baragraffau (2)(c)(ii) a (iii) uchod yn ei gwneud yn ofynnol i'r ceidwad gofnodi Rhif adnabod unigol yr afr a symudwyd.".

Diwygio erthygl 6

8.—(1) Diwygir erthygl 6 o'r prif Orchymyn yn unol â'r erthygl hon.

(2) Yn lle paragraff (4) rhoddir y canlynol—

"(4) Marc F—

(a) pan fydd wedi ei farcio ar dag clust, yw marc wedi ei ffurfio o'r elfennau canlynol yn y drefn ganlynol—

(i) os yw wedi ei ddodi cyn 1 Chwefror 2003—

(aa) y llythrennau "UK";

(bb) marc diadell neu farc gyr y daliad y mewnforiwyd yr anifail iddo o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd; a

(cc) y llythyren "F"; neu

(ii) os yw wedi ei ddodi ar 1 Chwefror 2003, neu ar ôl hynny—

(aa) y llythrennau "UK";

(bb) marc diadell neu farc gyr y daliad y mewnforiwyd yr anifail iddo o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd;

(cc) Rhif adnabod unigol yr anifail hwnnw; a

(chch) y llythyren "F"; neu

(b) pan fydd wedi ei farcio â thatŵ , yw marc wedi ei ffurfio o'r elfennau canlynol yn y drefn ganlynol—

(i) os yw wedi ei ddodi cyn 1 Chwefror 2003—

(aa) marc diadell neu farc gyr y daliad y mewnforiwyd yr anifail iddo o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd; a

(bb) y llythyren "F"; neu

(ii) os yw wedi ei ddodi ar 1 Chwefror 2003, neu ar ôl hynny—

(aa) marc diadell neu farc gyr y daliad y mewnforiwyd yr anifail iddo o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd;

(bb) Rhif adnabod unigol yr anifail hwnnw; a

(cc) y llythyren "F";".

(3) Yn lle paragraff (5) rhoddir y canlynol—

"(5) Marc Tarddiad—

(a) pan fydd wedi ei farcio ar dag clust, yw marc wedi ei ffurfio o'r elfennau canlynol yn y drefn ganlynol—

(i) os yw wedi ei ddodi cyn 1 Chwefror 2003—

(aa) y llythrennau "UK";

(bb) marc diadell neu farc gyr daliad geni'r anifail; neu

(ii) os yw wedi ei ddodi ar 1 Chwefror 2003, neu ar ôl hynny—

(aa) y llythrennau "UK";

(bb) marc diadell neu farc gyr daliad geni'r anifail; a

(cc) Rhif adnabod unigol yr anifail hwnnw; neu

(b) pan fydd wedi ei farcio â thatŵ , yw marc wedi ei ffurfio o'r elfennau canlynol yn y drefn ganlynol—